

MANTEISION DEFNYDDIO LLORIAU RHWYLLAU AGORED (LIRhA)

(gan M. W. Shaw, Cymdeithas Gwenynwyr Môn)

Y rheswm a roddir gan amlaf dros ddefnyddio llawr rhwyllau agored (LIRhA) (*open-meshed floor*) yw rheoli Varroa.

- a) Mae defnyddio LIRhA yn lleihau poblogaeth y gwiddon o ryw 20% - mae gwiddon byw yn cwmpo drwy'r rhwyll ac yn methu mynd yn ôl i mewn i'r cwch (mae angen cwmp o 50mm o leiaf). Mae'r gwiddon hyn yn marw cyn pryd ac nid ydynt yn cwblhau eu potensial llawn o ran atgennedlu – felly dyma sy'n achosi'r cwmp o 20% yn y boblogaeth.
- b) Drwy fonitro'r gwiddon sy'n marw'n naturiol mae'r gwenynwr yn gallu cael amcangyfrif sydyn o nifer y gwiddon sydd mewn nythfa ac amseru'r driniaeth yn unol â hynny.

Does gen i ddim prawf uniongyrchol o'r fantais gyntaf (lleihad o 20% ym mhoblogaeth y Varroa) ond mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod hyn bron yn sicr yn gywir. Ond, mae fy mhrofiad i o fonitro'r gwiddon sy'n marw'n naturiol, o fesur gyda LIRhA a hambwrdd dal, yn awgrymu bod lle i amau pa mor ddefnyddiol yw hyn. NID yw cyfartaledd y gwiddon sy'n cwmpo bob dydd fel petai'n rhagfynegi sawl gwiddonyn sydd mewn cwch. Nid bod y ffactorau trosi (e.e. cyfartaledd y gwyddon sy'n cwmpo bob dydd x 30 yn yr haf) yn anghywir chwaith. I roi enghraifft, ganol mis Gorffennaf 2005 bûm yn monitro 36 nythfa mewn 6 gwenynfa am 7 niwrnod. 12 oedd uchafswm y gwiddon a gwmpodd mewn unrhyw un nythfa yn ystod y cyfnod hwnnw (h.y. tua 2 gwiddonyn y dydd) ac roedd y rhan fwyaf o'r nythfeydd yn llawer is (0 mewn sawl achos). Ar sail y canlyniadau hyn, gallai rhywun ddod i'r casgliad rhesymol fod y lefel y Varroa'n isel ym mhob nythfa. Pan ddechreuodd y driniaeth gyda 'Apiguard' bum wythnos yn ddiweddaraf (2 hambwrdd gyda bwllch o bythefnos rhwng pob un) cofnodwyd bod hyd at 6,580 o widdon wedi'u lladd (roedd cwmp o 5 gwiddonyn dros 7 niwrnod yn y nythfa honno yng nghanol mis Gorffennaf). Yr enghraifft fwyaf eithafol oedd nythfa lle na chwmpodd unrhyw widdon (0) yn ystod y monitro ond lladdwyd 6,010 yn ystod y driniaeth! Rwyf wedi cael canlyniadau tebyg, ond heb fod mor eithafol mewn blynyddoedd eraill ond nid oes unrhyw achos lle mae'r canlyniadau monitro wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer y driniaeth. Rwy'n siŵr fod rhagfynegiad marwoldeb y gwiddon (a gafwyd o fodel dymeg poblogaeth CSL) yn gywir a bod llawer o widdon yn marw yn ystod y cyfnod monitro. Tynged y gwiddon oedd yn marw ac wedi marw yw'r broblem. Yr unig esboniad sydd gen i yw bod gwenyn glanhau'n dod ar draws y gwiddon hyn mewn nythfa iach fel arfer, a'u bod yn eu cario allan o'r cwch ac mai ychydig sy'n cwmpo drwy'r llawr rhwyllau. Rhaid bod rhywbeth tebyg yn digwydd yn ystod y driniaeth ond bod cymaint yn marw fel bod gormod o waith i'r gwenyn glanhau. Serch hynny, rhaid bod nifer y gwiddon sy'n cwmpo adeg y driniaeth yn llai na'r nifer sy'n cael eu lladd.

Mae'n drueni nad yw hi'n edrych fel petai dull o amcangyfrif poblogaethau Varroa oedd yn ymddangos yn ddi-ffael a thwt yn gweithio. Os oes unrhyw un allan fan yna wedi ei gael i weithio iddyn nhw, byddwn i wrth fy modd yn cael gwybod beth yw eu cyfrinach. Ond mae sawl mantais arall i ddefnyddio LIRhA y dylai gwenynwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

- c) Mae'n bosib bod defnyddio LIRhA yn gwneud i driniaethau fel 'Apiguard' fod yn fwy effeithiol. Honnir bod cynnyrch tebyg 'Apilife VAR' yn lladd mwy o widdon o ddefnyddio LIRhA.
- ch) Honnir bod gaeafu'n oer ar Lawr Rhwyll Agored yn creu cyfnod hirach heb fagu, pan fydd y gwiddon i gyd ar y gwenyn a gellir eu trin yn effeithiol gan asid ocsalig neu lactig. Eto, rwyf wedi gweld nad yw defnyddio LIRhA (hyd yn oed gydag awyru rhan uchaf y cwch yn dda, fel ei fod wir

yn oeri'r cwch) yn cynyddu'r cyfnod heb fag yn sylweddol. Yn sicr mae'n lleihau faint o gelloedd mag sydd yn y misoedd oeraf – ond a yw hyn yn syniad da?

- d) Mae hi'n ymddangos fel petai gan nythfeydd raglen fewnol ar gyfer magu ac nid yw'n hawdd ei newid – ac ni ddylid ychwaith yn fy marn i. Rwyf wedi rhoi'r gorau i awyru rhan uchaf y cwch yn yr hydref a'r gaeaf ac rwyf hefyd yn ynysu'r rhan uchaf – mae'r llawr rhwyllau'n agored heb hambwrdd dal yn ei le. Felly mae'r nythfa'n cael amodau rhesymol i fagu fel y myn.
- dd) Mae dyluniad y LIRhA yn gallu cynnwys llai o le i lwybrau gwenyn dros y llawr ond bod digon o awyr i'r crwybrau. Felly mae llawer llai o estyniadau crwybr ar y bar gwaelod fel ei bod hi'n llawer haws symud crwybrau a chyfnewid blychau (e.e. rheoli heidiau Snelgrove neu Demaree) – does dim angen ysgwyd y gwenyn a glanhau'r barrau gwaelod. Hefyd mae'n cael gwared ar yr angori i'r llawr a'r propolis sy'n cael ei ollwng ar y rhwyll. Rwyf wedi penderfynu cael llawr 9mm o ddyfnder (o'i gymharu â 22-23mm ar gyfer y rhan fwyaf o loriau solet).
- e) Fel arfer mae'r nythfa'n dechrau magu'n uwch yn y cwch pan fydd ar LIRhA. Mae hyn yn atal nenfwd mêl rhag datblygu yn y llofft uchaf (ar fag a hanner) ac yn helpu i roi lle i'r frenhines ddodwy i'r eithaf.
- f) Gyda LIRhA isel (9mm), does dim angen defnyddio'r gardiau llygod metel (ofnadwy) yna.
- ff) Mae LIRhA yn galluogi'r nythfa i reoli'i thymheredd yn well mewn tywydd poeth ac mae'n awyru'n dda i'r mêl aeddfedu. Mae defnyddio toeon sydd â digon o dyllau awyru sy'n creu darfudiad naturiol – i mewn drwy'r llawr rhwyllau ac allan drwy'r to – yn golygu bod llai o angen gwyntyllu. Yn oerfel yr hwyr gellir gweld anwedd dŵr yn dod allan o dyllau awyru'r to.
- g) Mae LIRhA yn dda i gludo gwenyn. Does dim angen gosod sgriniau teithio ac nid yw'r gwenyn fel petaen nhw o dan straen hyd yn oed mewn tywydd poeth.
- ng) Os nad yw'r hambwrdd dal yn ei le – ac eithrio yn ystod monitro neu driniaeth – mae defnyddio LIRhA yn golygu nad oes anwedd yn y cwch bellach. Mae hyn yn annog nythfa sy'n fwy bywiog ac iach a dim clefydau. Mae angen dewrder i ddefnyddio LIRhA (agored) yn ystod y gaeaf am y tro cyntaf ond mae'n gweithio hyd yn oed i nythfa fach.
- h) Yn olaf, gyda LIRhA does dim angen sicrhau bellach fod y cwch yn gogwyddo rywfaint tuag at y blaen – does dim problem draenio'r llawr.

Rwyf wedi bod yn defnyddio LIRhA ers 1996 (2 flynedd cyn daeth Varroa) a fyddwn i byth yn breuddwydio am fynd yn ôl at loriau solet. Mae dyluniad da i'r LIRhA yn bwysig i osgoi problemau, e.e. malurion y cwch yn crynhoi a lleithder a gwyfynod cwyr yn magu. Dydy trosi lloriau solet byth yn foddhaol yn fy marn i. Mae dyluniad y LIRhA rwyf wedi bod yn ei ddefnyddio ers 2000 i'w weld mewn erthygl arall.